



Care & Repair Cymru


COVID-19
Gwybodaeth Bwysig



Gweithio yng nghartrefi cleientiaid Gofal a Thrwsio, Canllawiau i gontractwyr adeiladu

Gwella cartrefi, Newid bywydau

Mae Care & Repair Cymru yn elusen gofrestrdig.
Rhif elusen 1163542



Pam ei bod yn bwysig fod Gofal a Thrwsio yn dal ati i weithio

Mae Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hŷn i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Yn ystod y pandemig Coronafeirws, mae pobl hŷn yn treulio mwy o amser adref felly maent fwy o angen help nag erioed. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd yn hunanynysu oherwydd bod ganddynt symptomau, wedi dewis hunanynysu neu ar y rhestr warchod oherwydd y cânt eu hystyried yn fregus iawn ac wedi derbyn llythyr ffurfiol yn eu hysbysu am hynny.

Mae'n bwysig fod Gofal a Thrwsio yn parhau i weithredu a gwneud gwaith hanfodol tebyg i waith addasu (e.e. lifftiau grisiau, cawodydd cerdded-i-mewn gyda mynediad gwastad, canllawiau cydio a rampiau) a gwaith atgyweirio hanfodol (e.e diogelwch trydanol, plymio a draeniad, nwy, lleithder, toeau a ffenestri'n gollwng a gwneud cartrefi yn ddiogel i fyw ynddynt). Os na wnawn hyn, gellid niweidio iechyd, diogelwch a lles pobl hŷn a gallent orfod mynd i ysbyty, meddygfa deuluol neu gartref gofal.

Daw gweithwyr Gofal a Thrwsio o fewn diffiniad Llywodraeth Cymru o 'weithwyr allweddol' a felly gallwn ddal ati i ddarparu ein gwasanaethau mewn cymunedau a chartrefi, gan ein bod yn helpu i gadw pobl hŷn yn ddiogel ac yn iach. Cynnyrch gorffenedig y ffordd y cefnogwn bobl hŷn yw bod angen gwaith i'w cartrefi, ac rydym yn aml yn gweithio gyda chi fel crefftwyr a chontractau adeiladu i gwblhau'r gwaith hwn.

Yr hyn a ddisgwyliwn gan grefftwyr a chontractwyr adeiladu sy'n gwneud gwaith yng nghartrefi cleientiaid

Ar draws Cymru, mae Gofal a Thrwsio wedi gosod safonau gofynnol ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol, hylendid, arferion gwaith a rheolau ymbellhau cymdeithasol ar gyfer ein gweithwyr ein hunain. Seiliwyd hyn ar gyngor swyddogol Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Llywodraeth. Mae'n bwysig eich bod chi fel contractwyr preifat hefyd yn gweithio i'r un rheolau, er mwyn diogelu ein cleientiaid a chithau fel unigolion rhag heintiad Coronafeirws.



Cyfarpar Diogelu Personol: Safonau gofynnol ar gyfer gweithio yng nghartrefi cleientiaid Gofal a Thrwsio

Cyd-destun	Menig untro	Ffedog blastig untro	Masg llawfeddygol	Masg llawfeddygol gwrth-hylif (Math IIR)	Cyfarpar diogelu llygaid/wyneb*
Gweithio tu mewn i gartref cleient lle mae gan unrhyw un sydd yn byw yno symptomau coronafeirws (h.y. achos posibl neu wedi ei gadarnhau)	✓ Defnydd untro	✓ Defnydd untro	✗ Na	✓ Defnydd untro	✓ Defnydd untro
Gweithio tu mewn i gartrefi lle mae'r cleient mewn grŵp bregus iawn neu lle mae rhywun sydd yn byw yno o fewn y grŵp bregus iawn ar y rhestr warchod **	✓ Defnydd untro	✗ Na	✓ Defnydd untro	✗ Na	✗ Na

*Gall hyn fod yn gyfarpar diogelu'r wyneb/llygaid untro neu y gellir ei aildddefnyddio a gall fod yn feisor wyneb llawn neu gogls.

**Mae diffiniadau o'r grŵp gwarchod a bregus iawn ar gael yng nghyllwariu'r Llywodraeth

Yr hyn a ddisgwyliwn gan y contractwyr y gweithiwn gyda nhw

1. Canfod cyn cyrraedd cartref ein cleientiaid os ydynt yn hunanynysu neu ar y rhestr warchod.
2. Defnyddio'r Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) cywir.
3. Cynnal ymbellhau cymdeithasol llym bob amser. Cadw o leiaf 2 fetr i ffwrdd o'r cleient ac unrhyw un sy'n byw gyda nhw, a gofyn yn barchus i gleientiaid gadw 2 fetr i ffwrdd. Osgoi cysylltiad uniongyrchol, ac esbonio na fedrwch dderbyn lluniaeth.
4. Glanhau a diheintio dyfeisiau symudol yn rheolaidd.
5. Sicrhau y caiff PPE ei wisgo yn gywir cyn mynd i mewn i gartref a'i dynnu i ffwrdd yn gywir pan fo angen er mwyn croes-halogi.
6. Cael gwared yn ddiogel â PPE drwy ei roi mewn bag tu mewn i fag arall a'i symud o gartref y cleient i gael gwared ag ef yn ddiogel.
7. Gwrando ar bryderon ein cleientiaid a pharchu eu dymuniadau.
8. Diheintio offer a chyfarpar a pheidio mynd ag unrhyw beth diangen i mewn i gartref tebyg i fagiau gwaith, gwaith papur neu offer na chaiff eu defnyddio.
9. Diheintio offer a chyfarpar ar ôl pob defnydd mewnol, un ai yn defnyddio glanedydd a dŵr neu weips diheintio.

10. Sychu a glanhau'r ardal waith gyffredinol ar ôl cyrraedd a phan fyddwch yn gadael y cartref, gyda naill ai laniedydd a dŵr poeth neu weips diheintio addas.
11. Sychu mannau allweddol yn eich cerbydau yn rheolaidd gyda glanedydd a dŵr, a weips diheintio os nad oes glanedydd a dŵr ar gael.

Cael gwared â PPE yn ddiogel

Ar ôl eu defnyddio, dylid rhoi eitemau PPE untro mewn bag o fewn bag arall, rhoi label gyda'r dyddiad a'r amser, eu symud o'r safle a chael gwared â nhw yn ddiogel. Mae eu rhoi mewn casgliad gwastraff cyffredinol o leiaf 72 awr ar ôl rhoi'r eitem olaf o PPE mewn bag yn dderbyniol.

Aseiad risg, datganiadau dull a Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 (CDM)

Mae CDM yn ei gwneud yn ofynnol cynnal aseiad risg sy'n dynodi'r holl beryglon iechyd a diogelwch a'r camau sydd eu hangen i reoli risgiau iechyd a diogelwch. Mae'n hanfodol y caiff pob swydd, a risg posibl, eu barnu ar eu haeddiant a'ch bod yn rhoi ystyriaeth ofalus i holl agweddau iechyd, diogelwch a lles ar yr holl waith a wnewch.

Mae ystyried rheoli heintiad Coronafeirws ar eich cyfer chi, deiliaid tai, eich gweithwyr, cydweithwyr, aelodau teulu a'r cyhoedd yn ychwanegiad pwysig at eich aseiad risg peryglon adeiladu arferol.

Cafodd yr wybodaeth hon ei pharatoi i roi arweiniad ar sut i leihau lledaeniad Coronafeirws pan fyddwch yn gweithio yng nghartrefi ein cleientiaid ond yn y pen draw chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, a'ch bod yn darparu Cynlluniau Iechyd a Diogelu Cyfnod Adeiladu (CPP) a Datganiadau Dull.


Ffoniwch a siaradwch gyda ni os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw gwestiynau neu faterion o gonsyrn.



Care & Repair Cymru

www.careandrepair.org.uk

dewch o hyd i ni ar



Trident Court, Llawr 1af, Tŷ Mariners,
Heol East Moors, Caerdydd
CF24 5TD

Gwella cartrefi, Newid bywydau

COVID-19
Gwybodaeth Bwysig

Care & Repair Cymru is a registered charity:
Charity number 1163542